Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 16 Gorffennaf 2020

Annwyl Staff/Rieni/Warcheidiaid

Ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, byddaf bob amser yn ysgrifennu at ein hysgolion i edrych yn ôl ar y flwyddyn ysgol ac i ddathlu ein llwyddiannau. Yn yr ystyr hwnnw, nid yw eleni'n ddim gwahanol, gyda'n hysgolion yn parhau i wneud yn wych o ran cefnogi pob un o'n dysgwyr wrth iddyn nhw ymdrechu i gyrraedd eu potensial. O ystyried pandemig eleni, roeddwn yn meddwl ei bod yn briodol i mi ysgrifennu at ein dysgwyr a'u teuluoedd hefyd.

Yn fy llythyr ar 9 Gorffennaf, mi wnes i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddem yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer addysg orfodol i bob un o'n dysgwyr erbyn 14 Medi 2020. Ers y cyhoeddiad hwnnw, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion i gynllunio ar gyfer hyn mewn ffordd ddiogel a threfnus.

Fel y digwyddodd pan agorodd ysgolion ar gyfer y sesiynau ailgydio a dal i fyny bydd dulliau gwahanol ar draws ein hysgolion yn seiliedig ar lawer o ffactorau gwahanol. Mae pob ysgol yn cynnal asesiadau risg pellach i'w helpu i nodi'r dull sy'n iawn ar gyfer ysgol eich plentyn. Fodd bynnag, rydym wedi cytuno ar egwyddorion allweddol pellach gyda'n penaethiaid er mwyn sicrhau cysondeb lle bynnag y bo modd.

Bydd pob disgybl yn dychwelyd mewn ffordd raddol i'r ysgol/UAD yn y cyfnod o bythefnos ar ddechrau tymor yr Hydref ym mis Medi (ar ôl unrhyw ddiwrnodau paratoi). Bydd pob disgybl (ac eithrio'r meithrin o bosibl) yn llawn amser erbyn dydd Llun, 14 Medi.

Hoffem dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- O fis Medi ymlaen, darperir sesiynau ysgol, lle y bo'n bosibl, o fewn oriau gweithredol arferol yr ysgol honno.
- Lle bo modd, ac yn seiliedig ar asesiad risg pob ysgol unigol, gall clybiau brecwast a chlybiau ar ôl yr ysgol ailgychwyn.
- Bydd prydau ysgol yn ailgychwyn ar 14 Medi. Tan hynny, bydd angen i bob disgybl ddod â phecyn bwyd gyda hwy ar gyfer pythefnos cyntaf y tymor. Bydd taliadau BACS a pharseli bwyd wythnosol yn parhau am y cyfnod hwn.

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

- Bydd oriau glanhau ychwanegol yn caniatáu i fannau cyswllt uchel gael eu glanhau'n amlach ym mhob ysgol.
- Lle bo'n bosibl, dylai rhieni a gwarcheidiaid barhau i deithio gyda'u plant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Mae tîm trafnidiaeth y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion i bennu'r galw am gludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion cymwys a bydd yn ceisio bodloni'r gofynion hyn. Mae'n debyg y bydd gwisgo mygydau wyneb yn orfodol ond caiff gwybodaeth bellach ei chyfleu drwy eich ysgol a llwyfannau cymdeithasol amrywiol y Cyngor dros yr haf.
- Bydd pob plentyn yn cael ei annog i olchi ei ddwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr drwy gydol y dydd/sesiwn. Bydd glanhawyr dwylo hefyd ar gael.
- Yn ogystal â glanhau'n drylwyr bob dydd, bydd proses "glanhau wrth fynd" yn parhau i gael ei defnyddio ym mhob ysgol i leihau'r risg o groeshalogi a thrawsyrru covid-19.

Ers dechrau'r pandemig, mae gwaith ein penaethiaid, staff yr ysgolion a'r gymuned ysgol ehangach wedi fy ngwneud yn hynod o falch. O ddarparu gofal plant i'n gweithwyr allweddol a'r rhai mwyaf bregus i sicrhau bod pob un o'n dysgwyr yn cael bwyd ar y bwrdd mae ein staff wedi bod yn fodlon mynd y filltir ychwanegol. Tra'n sicrhau ar yr un pryd bod ein dysgwyr wedi parhau i ddysgu o'u cartref a bod eu plant a teuluoedd eu hunain wedi cael eu gofalu amdanynt. Fel Cyfarwyddwr Addysg byddaf yn fythol ddiolchgar am bopeth yr ydych wedi'i wneud.

I'n dysgwyr, bydd hyn wedi bod yn gyfnod o amser a fydd yn diffinio'u cenhedlaeth. Hoffwn ddiolch i'n dysgwyr am y ffordd maen nhw wedi mynd ati i ddelio gyda'r amser rhyfedd hwn yn eu dysgu a gwneud addewid iddyn nhw bod y system addysg gyfan yn Abertawe ar eu hochr nhw wrth i ni barhau i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gwarcheidiaid. Mae'r negeseuon o gefnogaeth a her wedi bod yn niferus a gallaf eich sicrhau eu bod i gyd wedi chwarae rhan yn y ffordd rydym ni fel Cyngor wedi addasu ein dulliau gweithredu drwy gydol y cyfnod hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion i sicrhau eich bod chi a'ch plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Dylai teuluoedd y mae angen iddynt gael gofal plant yn ystod cyfnod gwyliau'r haf o 6 wythnos wneud hynny gan ddarparwyr gofal plant preifat cofrestredig sydd eisoes ar gael yn Abertawe. Cysylltwch â gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd Abertawe 01792 517222/ fis@swansea.gov.uk am ragor o fanylion.

Byddwch yn dawel eich meddwl bydd ysgol eich plentyn yn rhoi llawer mwy o fanylion i chi rhwng nawr a dechrau'r tymor. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

N. J. Williams

Nick Williams
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council